Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

Gwasanaethau Gyrwyr

# Sut i wneud cais am eich trwydded yrru ar ôl cael eich gwahardd am drosedd yfed a gyrru




Am fwy o wybodaeth ewch i
**www.gov.uk/reapply-licence-revoked**


CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID
INVESTORS IN PEOPLE™
We invest in people Gold
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Aur



INF212/1W
10/24

# Rwyf wedi cael fy ngwahardd am drosedd yfed a gyrru. Sut ydw i'n cael fy nhrwydded yn ôl?

Bydd yr hyn fydd rhaid ichi ei wneud yn dibynnu os ydych chi'n dod o fewn y categori Troseddwyr Risg Uchel (HRO) ymhlith gyrwyr yfed a gyrru a gafwyd yn euog.

# Sut ydw i'n gwybod os ydw i'n dod o fewn y categori HRO?

### Byddwch yn dod o fewn y categori HRO os yw unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol.

- Rydych wedi cael eich gwahardd rhag gyrru, neu wedi bod yn gyfrifol am gerbyd, pan oedd lefel yr alcohol yn eich corff yn gyfartal i neu'n uwch na:
  - 87.5 meicrogram mewn 100 mililitr o anadl
  - 200 miligram mewn 100 mililitr o waed, neu
  - 267.5 miligram mewn 100 mililitr o wrin.
- Rydych wedi cael dau waharddiad o fewn cyfnod o 10 mlynedd am yrru dros y terfyn cyfreithiol, neu am fod yn anaddas i yrru o ganlyniad i yfed.
- Rydych wedi cael gwaharddiad am wrthod neu fethu â rhoi sampl o anadl, gwaed neu wrin ar gyfer prawf.
- Rydych wedi cael gwaharddiad am wrthod dadansoddiad o sampl gwaed a gymerwyd oherwydd analluogrwydd.

Nid yw llysoedd yn eich hysbysu yn awtomatig os ydych o fewn y categori HRO o ganlyniad i euogfarn yfed a gyrru.

# Dydw i ddim yn y categori HRO, sut ydw i'n cael fy nhrwydded yn ôl?

Byddwn yn anfon ffurflen gais atoch i adnewyddu eich trwydded yrru 56 diwrnod cyn i'ch gwaharddiad ddod i ben. (Rhaid ichi roi gwybod inni am unrhyw newid i'ch cyfeiriad tra rydych wedi eich gwahardd.)

Os na fyddwch yn derbyn hon ac eich bod yn ddeiliad trwydded car/beic modur yn unig, dylech lenwi ffurflen 'Cais am drwydded yrru' (D1W), y gellir ei chael o ganghennau Swyddfa'r Post® sy'n cynnig gwasanaethau Gyrru a Cherbydau. Os ydych yn ddeiliad trwydded lori, bws neu fws mini mae angen ichi lenwi 'Cais am drwydded yrru lori, bws neu fws mini' (D2W) y gellir ei harchebu o **www.gov.uk/dvlaforms** neu gan Swyddfa'r Comisiynwyr Traffig.

**Noder:** Os cewch eich gwahardd eto am yfed a gyrru o fewn y 10 mlynedd nesaf, byddwch wedyn yn cael eich rhoi o fewn y categori HRO.

# Rydw i o fewn y categori HRO, sut ydw i'n cael fy nhrwydded yn ôl?

**Ni chewch eich trwydded yn ôl nes ichi fodloni ein meddygon eich bod yn ddigon iach yn feddygol i yrru eto. Golyga hyn bod rhaid ichi gael asesiad meddygol, gan gynnwys cael profion gwaed.**

Byddwn yn anfon y ffurflen gais angenrheidiol atoch 90 diwrnod cyn y daw eich gwaharddiad i ben. Rhaid ichi roi gwybod inni am unrhyw newid i'ch cyfeiriad yn ystod cyfnod eich gwaharddiad. Bydd y 90 diwrnod fel arfer yn caniatáu digon o amser i gwblhau'r asesiad meddygol cyn y daw eich gwaharddiad i ben.

Os na fyddwch yn derbyn y ffurflen gais ac eich bod yn ddeiliad trwydded car/beic modur yn unig, dylech lenwi 'Cais am drwydded yrru' (D1W), y gellir ei chael o ganghennau Swyddfa'r Post® sy'n cynnig gwasanaethau Gyrru a Cherbydau. Os ydych yn ddeiliad trwydded lori, bws neu fws mini mae angen ichi lenwi 'Cais am drwydded yrru lori, bws neu fws mini' (D2W) y gellir ei harchebu o **www.gov.uk/dvlaforms** neu gan Swyddfa'r Comisiynwyr Traffig.

Bydd rhaid ichi gael asesiad meddygol y bydd rhaid ichi dalu amdano.

## A oes gennyf hawl i yrru cyn imi dderbyn fy nhrwydded yrru?

- Os dechreuwyd eich gwaharddiad cyn 1 Mehefin 2013, cewch yrru ar yr amod bod eich gwaharddiad wedi dod i ben a bod DVLA wedi derbyn cais dilys am drwydded yrru newydd ynghyd â'r ffi gywir.
- Os byddwch yn derbyn eich trwydded yrru yn ôl cyn i'ch gwaharddiad ddod i ben, ni allwch yrru nes y dyddiad cychwyn ar eich trwydded yrru.
- Os dechreuwyd eich gwaharddiad ar neu ar ôl 1 Mehefin 2013 ni chewch yrru nes i'ch trwydded gael ei chyhoeddi. Os byddwch yn gyrru cyn hynny, byddwch yn cyflwyno trosedd.
- Gall unrhyw oedi cyn mynychu'r archwiliad meddygol olygu na fyddwch yn gallu gyrru ar ddiwedd eich gwaharddiad nes bod y broses feddygol a'r penderfyniad trwyddedu wedi'u cwblhau.

## Beth mae'r asesiad meddygol yn ei gynnwys?

Bydd yr asesiad yn cynnwys:

- llenwi holiadur meddygol am eich hanes meddygol a faint o alcohol rydych chi'n ei yfed
- archwiliad corfforol, a
- phrofion gwaed.

Fel arfer bydd angen ichi dynnu rhai o'ch dillad ar gyfer yr archwiliad corfforol.

Ni fyddwch yn gallu cael eich trwydded yrru yn ôl os bydd yr asesiad meddygol yn dod o hyd i dystiolaeth o:

- gamddefnyddio alcohol yn barhaus o fewn y 12 mis diwethaf, neu
- gamddefnydd neu ddibyniaeth ar hyn o bryd.

Mae hyn er mwyn sicrhau na fyddwch yn risg i eraill ar y ffordd.

Os oes gennych unrhyw amheuon ynghylch eich ffitrwydd i yrru, dylech drafod y mater gyda'ch meddyg eich hun cyn ichi wneud cais am eich trwydded.

Efallai y byddai'n ddoeth peidio â gwneud cais am eich trwydded hyd nes y gallwch fodloni'r safonau meddygol.

## Rydw i wedi bod ar gwrs adsefydlu yfed a gyrru. Oes angen imi gael asesiad meddygol o hyd?

Os ydych yn y categori HRO, bydd dal angen ichi gael asesiad meddygol. Mae hyn yn ofyniad cyfreithiol i bob gyrrwr sydd wedi'i wahardd am yfed a gyrru.

Bydd mynychu cwrs adsefydlu yfed a gyrru yn lleihau cyfnod y gwaharddiad ac yn caniatáu ichi wneud cais am drwydded yn gynt.

Os yw cyfnod eich gwaharddiad wedi cael ei leihau, efallai na fyddwch yn derbyn hysbysiad i wneud cais am eich trwydded oddi wrthym. Yn yr achos hwn bydd angen ichi lenwi D1W.

## Beth ddylwn ei wneud pe byddwn i'n symud tŷ tra fy mod yn dal wedi fy ngwahardd rhag gyrru?

Dylech roi manylion eich cyfeiriad newydd inni i wneud yn sicr eich bod yn derbyn eich ffurflenni cais am eich trwydded yrru cyn daw eich gwaharddiad i ben.

Gallwch ddweud wrthym am eich manylion personol newydd drwy ysgrifennu i DVLA Abertawe SA99 1TU.

### Faint fydd rhaid imi dalu i wneud cais am fy nhrwydded yrru?

Bydd rhaid ichi dalu’r meddyg am yr asesiad meddygol. Bydd meddygon sydd wedi’u cofrestru ar gyfer TAW hefyd yn codi TAW ar ben y ffi am yr asesiad.

Bydd rhaid ichi hefyd dalu ffi inni am eich trwydded yrru.

Mae’r ffioedd trwyddedau gyrru diweddar ar ein gwefan yn **www.gov.uk/driving-licence-fees**

## Cysylltu

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad: | Grŵp Meddygol Gyrwyr<br>DVLA<br>Abertawe<br>SA99 1TU. |
| Rhif ffôn: | 0300 790 6806 neu |
| | 0300 790 6819 am y llinell Gymraeg |
| Gwefan: | **www.gov.uk/driving-medical-conditions** |
| E-bost: | **www.gov.uk/contact-the-dvla** |

**Gallwch ddewis i dderbyn hysbysiadau atgoffa treth cerbyd drwy negeseuon testun neu e-byst**

**Ewch i: gov.uk/dvla/cyfrif**

## Grŵp Meddygol Gyrwyr

**INF212/1W**

DVLA
Abertawe
SA99 1TU

**gov.uk/dvla**